OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 829 (Cy.124) (C.33)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - - 16 Mawrth 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 269(3) ac (8) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**):

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

Y diwrnod penodedig

2.—(1) 1 Ebrill 2011 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru—

(a) adran 49 (personau a gedwir yn gaeth mewn llety ieuenctid: cymhwyso darpariaethau) at ddibenion—

(i) adran 50 i'r graddau y dygir hi i rym gan is-baragraff (b); a

(ii) adran 52 o'r Ddeddf;

(b) adran 50 (personau a gedwir yn gaeth mewn llety ieuenctid: darpariaeth bellach) i'r graddau y mae'n mewnosod y darpariaethau a ganlyn yn Neddf Addysg 1996—

adran 562A(3);

adran 562B(1) i (3);

adran 562C(1) a (2);

adran 562F(1) i (6) ac (11);

adran 562I; ac

adran 562J;

(**1**) 2009 p.22.

(c) adran 51 (cadw plentyn neu person ifanc: rhoi gwybod i awdurdodau lleol);

(ch) adran 52 (rhyddhad plentyn neu person ifanc sy'n cael ei gadw sydd ag anghenion addysgol arbennig); a

(d) paragraffau 54 i 56 o Atodlen 6.

Huw Lewis
Y Dirprwy Weinidog dros Blant, o dan awdurdod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru.

16 Mawrth 2011

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Y Gorchymyn hwn yw'r trydydd Gorchymyn Cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009"), sy'n dwyn darpariaethau penodedig yn Neddf 2009 i rym i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru.

Mae adrannau 48 i 52 o Ddeddf 2009 yn gwneud darpariaeth o ran addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc sydd dan gadwad mewn llety ieuenctid perthnasol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu mai 1 Ebrill 2011 fydd y diwrnod y caiff adrannau 49 a 50 o Ddeddf 2009 eu dwyn i rym yn rhannol.

Mae adran 49 o Ddeddf 2009 yn gwrth-droi effaith adran 562 o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996") i blant a phobl ifanc sydd dan gadwad mewn llety ieuenctid perthnasol (fel y bydd swyddogaethau awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru, a rhieni o dan Ddeddf 1996 yn gymwys yn gyffredinol tuag at bersonau o'r fath). Deuir ag adran 49 i rym at ddibenion y diwygiadau i Ddeddf 1996 sydd wedi eu cynnwys yn adran 50 o Ddeddf 2009 ac sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn.

Mae adran 50 o Ddeddf 2009 yn mewnosod nifer o adrannau yn Neddf 1996. Deuir â rhai o'r darpariaethau hyn i rym fel a ganlyn. Mae adran 562A(3) yn diffinio person sydd dan gadwad at ddibenion Deddf 1996. Mae adran 562B(1) i (3) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cartref (sef yr awdurdod lleol lle y mae person yn byw fel arfer) gymryd camau i roi hwb i gyflawni'r potensial i ddysgu sydd gan berson sydd dan gadwad. Mae adran 562C(1) a (2) yn gwneud darpariaeth o ran datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn ystod y cyfnod y caiff plentyn ei roi dan gadwad. Mae adran 562F(1) i (6) ac (11) yn gwneud darpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag addysg ac sy'n ymwneud â pherson sydd dan gadwad. Mae adran 562I yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety i bobl ieuenctid ac mae adran 562J yn cynnwys diffiniadau.

Mae'r Gorchymyn hefyd hwn yn pennu mai 1 Ebrill 2011 fydd y diwrnod y caiff adran 51 o Ddeddf 2009 eu dwyn i rym. Mae adran 51 o Ddeddf 2009 yn diwygio Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 er mwyn gosod dyletswydd ar dîmau troseddau ieuenctid i roi gwybod i awdurdodau lleol penodol pan fydd person yn cael ei roi dan gadwad mewn llety ieuenctid perthnasol, ei drosglwyddo iddo neu ei ryddhau ohono.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn pennu mai 1 Ebrill 2011 fydd y diwrnod y caiff adran 52 o Ddeddf 2009 eu dwyn i rym. Mae adran 52 yn mewnosod adran 312A newydd yn Neddf 1996 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch datganiadau o anghenion addysgol arbennig pan ryddheir rhywun sy'n cael ei gadw ac sydd hefyd yn diwygio adran 328(5) o Ddeddf 1996 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol adolygu datganiad pan gaiff plentyn ei ryddhau o fod dan gadwad.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r darpariaethau yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009") yn y tabl isod wedi eu dwyn i rym o ran Cymru gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.